# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg ac Is-Gadeirydd) (Yn y Gadair)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, G.O. Jones, Alun Roberts, Margaret M. Roberts<br><br>Aelod Lleyg: Mr Dilwyn Evans |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP)<br>Prif Archwilydd (NRW)<br>Rheolwr Gwasanaeth a Rheoli Perfformiad TG (LE) (ar gyfer eitem 4)<br>Rheolwr Budd-daliadau (RW) (ar gyfer eitem 10)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr R. Llewelyn Jones, Peter Rogers (Cadeirydd), Mr Alan Hughes (SAC) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid)<br>Rheolwr Cyllid (CK), Uwch Archwilydd (JR) Uwch Gyfrifydd (AC) |

---

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd, Mr Jonathan Mendoza; etholwyd y Cynghorydd Dylan Rees i weithredu fel Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig. Esboniodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Peter Rogers, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, yn gwella yn dilyn llawdriniaeth ddiweddar ar ei ben-glin. Ar ran aelodau'r Pwyllgor, dymunodd yn dda i'r Cynghorydd Rogers am adferiad llawn a buan.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 3 Medi, 2019, a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**3 CYNGOR SIR YNYS MÔN: LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2018/19**

Cyflwynwyd y Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2018/19 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Cadarnhaodd y Llythyr y canlynol -

- Roedd y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau.
- Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau, a
- Ar 12 Medi, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Adroddwyd ar y materion allweddol a gododd o'r archwiliad i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ym Medi 2019.

O ran y datganiad yn y Llythyr Archwilio bod yr Archwilydd Cyffredinol yn dymuno tynnu sylw at y ffaith ei fod wrthi'n cynnal adolygiad o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor, dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod yr Archwilwyr wedi cynnal cyfweliadau â nifer o uwch staff y Cyngor yn ogystal ag Aelodau Etholedig perthnasol fel rhan o ymarfer y maent yn ei gynnal i adolygu cynaliadwyedd ariannol pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Y bwriad oedd cyflwyno'r canfyddiadau drafft i'r Cyngor erbyn y Nadolig; unwaith y bydd yr adroddiad canlyniadol wedi'i gwblhau fe'i cyflwynir i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2018/19 heb wneud sylw pellach.**

## 4 ADRODDIAD BLYNYDDOL DIOGELWCH SEIBER 2019

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Seiberddiogelwch 2019 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r bygythiadau seiber y mae'r Cyngor yn eu hwynebu ac yn rhoi trosolwg o rai o'r camau lliniaru sydd gan y Cyngor ar waith i wrthsefyll y bygythiadau hyn.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth a Rheoli Perfformiad TG fod seiberddiogelwch yn risg sylweddol i'r Cyngor, fel sy'n wir hefyd am sefydliadau eraill sy'n dal llawer iawn o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth sensitif, bersonol ac ariannol. Mae llawer iawn o sôn am ymosodiadau seiber yn y newyddion y dyddiau hyn ac mae ymosodiadau proffil uchel yn digwydd bob wythnos a hyd yn oed yn bob dydd. Mae ymosodiadau seiber yn amrywio o ran eu dull a'u cymhlethdod ond maent yn gyson yn eu bwriad i darfu, difrodi neu ddwyn. Mae'r Cyngor yn cydnabod y risg o ymosodiadau seiber ac mae'r risg honno wedi ei chofnodi felly yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol sy'n cael ei monitro gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Cyfeiriodd y Swyddog at y gwahanol fathau o ymosodwyr seiber a'u cymhellion, ynghyd â'r amrywiaeth o ymosodiadau seiber sy'n digwydd. Amlinellodd yn gyffredinol y camau lliniaru sydd gan y Cyngor ar waith i leihau a rheoli'r risg gan gynnwys yr isod -

- Maleiswedd – rhaglenni neu godau maleisus sy'n ceisio difrodi neu anablu cyfrifiaduron, gweinyddwyr, rhwydweithiau a dyfeisiau cyfrifiadurol eraill. Mae holl gyfrifiaduron a gweinyddwyr y Cyngor yn gweithredu meddalwedd gwrth-faleiswedd sy'n sganio am nodweddion codau maleisus ac sy'n rhwystro mynediad i gyfrifiaduron y Cyngor os darganfyddir rhai.
- Gwendidau mewn meddalwedd - diffygion neu fylchau mewn côd meddalwedd yw'r rhain ac os yw ymosodwr yn manteisio i'r eithaf ar y fath wendidau gallant beri i'r feddalwedd ymddwyn mewn modd annymunol ac annisgwyl. Os yw'r feddalwedd yn gyfredol ac yn dal i gael ei chefnogi gan y cyflenwr, mae pecynnau côd sydd wedi'u cywiro, sef "diweddariadau" neu "drwsiadau" ar gael i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn ac i gau'r bwlch diogelwch posib. Roedd y Cyngor wedi mabwysiadu Windows 10 yn gynnar ac ar ôl hynny symudodd i ffwrdd o'r drefn o osod meddalwedd cymwysiadau ar bob cyfrifiadur (a

oedd yn faich sylweddol o ran rheoli diweddariadau diogelwch) i drefn o rithioli cymwysiadau, gan olygu bod prif gopi ar gyfer pob cymhwysiad yn rhedeg ar weinydd canolog y mae gan bob cyfrifiadur neu liniadur fynediad iddo - felly dim ond un copi y mae’n rhaid ei gadw'n gyfredol a'i reoli. Mae'r Cyngor yn trefnu ymhellach i hacwyr moesegol trydydd parti gynnal asesiadau ar ba mor fregus yw rhwydweithiau'r Cyngor

• Bygythiadau mewnol – sef gweithredoedd damweiniol gan staff, gweithredoedd maleisus gan staff neu weithredoedd gan gontractwyr. Mae'r Cyngor wedi chwarae rhan flaenllaw yn y broses o gaffael pecyn E-Ddysgu dwyieithog Cymru gyfan ar ymwybyddiaeth seiber; mae'n gweithredu proses Safonau Diogelwch Safonol ar gyfer Staff (BPSS) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff a chanddynt fynediad at ddata sensitif swyddogol o swyddfa'r cabinet gyflwyno prawf adnabod, prawf cenedligrwydd a chael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'n rhaid i bob contractwr sydd naill ai'n cynnal systemau TG neu sydd â mynediad o bell i systemau TG y Cyngor lofnodi Cytundeb Prosesu Data; mae gan y Cyngor hefyd bolisïau amrywiol ar waith ar gyfer defnyddio TG yn ddiogel ac mae’n rhaid i'r holl staff sy’n defnyddio offer TG adolygu a derbyn y polisïau hyn.

• Gwe-rwydo - gweithred o anfon e-bost yn honni ei fod o ffynhonnell neu sefydliad dilys, a hynny mewn ymgais i gael gwybodaeth ariannol neu wybodaeth gyfrinachol arall. Mae gan y Cyngor dechnoleg hidlo soffistigedig ar waith i rwystro e-byst o'r fath ac mae'n rhaid i’w holl staff sy'n defnyddio offer TG fynd ar hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Seiberddiogelwch.

• Gwiriadau eraill - Rhwydwaith cyflym y Llywodraeth yw Rhwydwaith y Sector Cyhoeddus (PSN) ac mae’n cael ei ddefnyddio gan y sector cyhoeddus i gyfnewid data mewn modd diogel. Gan fod y rhwydwaith i bob pwrpas yn caniatáu cysylltiad â systemau Swyddogion Cabinet a’r Adran Gwaith a Phensiynau, rhaid i'r Cyngor gael ei asesu’n annibynnol ac yn drwyadl bob blwyddyn. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i basio’r asesiad PSN blynyddol bob blwyddyn ers i’r gofynion hyn ddod i rym. Trwy raglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a reolir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mae awdurdodau lleol wedi bod yn cynnal prawf ar eu trefniadau seiberddiogelwch a llywodraethu gwybodaeth yn erbyn yr arferion gorau. Ar ôl proses archwilio drwyadl, mae'r Cyngor yn un o ddim ond saith awdurdod yng Nghymru sydd wedi cael achrediad Cyber Essentials Plus ac achrediad IASME llawn. Yn ogystal, mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor wedi adolygu rheolaethau seiberddiogelwch y Cyngor ac wedi dod i'r casgliad eu bod yn effeithiol o ran rheoli'r risg ac ar gyfer atal a lleihau effaith ymosodiadau o'r fath ar wasanaethau, systemau a gwybodaeth.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad fel un addysgiadol ac wrth drafod y wybodaeth ynddo, gofynnodd am sicrwydd pellach mewn perthynas â'r materion canlynol -

• Oherwydd bod mwy o waith partneriaeth a chydweithio â chynghorau a sefydliadau eraill erbyn hyn, a yw rheolaethau mewnol y Cyngor yn cynnwys lliniaru'r risgiau seiberddiogelwch a allai ddeillio o’r fath bartneriaethau? Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth a Rheoli Perfformiad TG fod yn rhaid i bob awdurdod lleol ennill Achrediad PSN Swyddfa'r Cabinet - mae methu â chyrraedd y safon Seiberddiogelwch ofynnol yn arwain at ddatgysylltu ac i bob pwrpas yn nadu’r Cyngor rhag gweithio ar y cyd. Mae ennill achrediad yn dangos bod sefydliad yn ddibynadwy ac yn gweithio i'r un safonau a pholisïau.

• A oes gan y Cyngor raglen gynefino yn y maes TG ar gyfer gweithwyr newydd a pha mor hir y mae'n ei gymryd i weithiwr newydd gyrraedd lefel foddhaol o ymwybyddiaeth o faterion sy’n ymwneud â diogelwch TG? Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth a Rheoli Perfformiad TG ei bod yn ofynnol i reolwyr, trwy’r Broses Gynefino ar gyfer Rheolwyr, sicrhau bod gweithwyr newydd yn ymwybodol o'r holl bolisïau sydd yn y Porth Polisi, sef system rheoli polisïau’r Cyngor, gan gynnwys y Polisi Defnydd Derbyniol a’r Polisi Diogelwch TG ac mae’r rheolwyr yn cadarnhau wedyn bod hynny wedi'i wneud. Yn ogystal â’r drefn ar gyfer derbyn ac adolygu polisïau, mae yna raglen e-ddysgu orfodol ar ymwybyddiaeth seiber. Fodd bynnag, mae risg bob amser y gall gweithwyr sy'n newydd i'r

sefydliad gael eu twyllo gan sgam ar eu diwrnod cyntaf yn y gwaith ond mae’r risg benodol honno’n cael ei lliniaru trwy ddarparu cefnogaeth barhaus a thrwy gynnal gwiriadau ar ffurf camau dilyn-i-fyny er mwyn sicrhau bod gweithwyr wedi darllen a deall y polisïau diogelwch TGCh. Anfonir nodiadau atgoffa rheolaidd hefyd.

- I ba raddau y mae'r Cyngor mewn perygl o ladrad ariannol ac a oes rheolaethau ar waith i sicrhau nad yw arian cyhoeddus yn cael ei golli trwy weithgareddau twyllodrus neu sgamiau? Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod rheolaethau ar waith ym mhob gwasanaeth ar gyfer gwahanu dyletswyddau h.y. neilltuo cyfrifoldebau awdurdodi trafodion i wahanol bobl ac ati. Mae'r Cyngor hefyd yn ymwybodol o nifer o sgamiau sy'n ceisio rhoi mynediad i ddrwgweithredwyr i systemau ariannol y Cyngor i gael arian trwy dwyll e.e. sgamiwr yn cymryd arno ei fod yn gontractwr i’r Cyngor ac yn ceisio newid manylion cyfrif banc. Mae’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhannu gwybodaeth fel mater o drefn am gynlluniau twyllodrus cyfredol a rhai posib ac mae hynny’n gwella ymwybyddiaeth staff ac yn golygu y gall gwasanaethau adolygu a chryfhau eu rheolaethau yn unol â hynny.

**Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd ynghyd â'r eglurhad ychwanegol a ddarparwyd gan y Swyddogion, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn a nodi'r sicrwydd a ddarparwyd gan Adroddiad Blynyddol Seiberddiogelwch 2019.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

## 5 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2019/20

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ar y sefyllfa a’r gweithgareddau rheoli trysorlys hanner ffordd trwy flwyddyn ariannol 2019-20.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y canlynol -

- Nad oes unrhyw newidiadau polisi i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 27 Chwefror, 2019. Mae'r adroddiad yn diweddaru'r sefyllfa yng ngoleuni'r sefyllfa economaidd ddiweddaraf a'r newidiadau cyllidebol a gymeradwywyd eisoes.
- O ran ei bortffolio buddsoddi, ‘roedd gan y Cyngor £18.551m o fuddsoddiadau ar 30 Medi, 2019 (£14.333m ym mis Mawrth, 2019) a’r elw o’r portffolio buddsoddi am chwe mis cyntaf y flwyddyn oedd 0.62%. ‘Roedd Atodiad 3 yn cynnwys rhestr lawn o’r buddsoddiadau fel yr oeddent ar 30 Medi, 2019 ac roedd crynodeb o'r buddsoddiadau a'r cyfraddau i’w weld yn Atodiad 4. Nid aethpwyd dros y terfynau a gymeradwywyd yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn ystod chwe mis cyntaf 2019/20.
- Yr incwm y mae’r Cyngor wedi cyllidebu y bydd yn ei dderbyn o’i fuddsoddiadau ar gyfer y cyfan o 2019/20 yw £0.031m ac mae’r perfformiad am y flwyddyn hyd yma’n uwch na’r
gyllideb, gyda £0.041m wedi’i dderbyn ar ddiwedd Chwarter 2 oherwydd buddsoddi arian dros ben gydag awdurdodau lleol eraill sydd wedi creu enillion gwell na phe bai’r arian mewn cyfrif galw gyda banc. Mae'r tabl yn 5.7 yn dangos rhestr o fuddsoddiadau a wnaed gydag awdurdodau lleol eraill yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2019/20. O ystyried mai diogelwch yr arian yw dangosydd allweddol y Cyngor hwn, ystyrir mai awdurdodau lleol eraill yw’r ffordd fwyaf diogel o fuddsoddi arian y Cyngor hwn a gwneud hynny’n cynhyrchu mwy o enillion na'r mwyafrif o gyfrifon galw gyda banc.
- O ran benthyca, mae'r Cyngor wedi rhagweld y bydd wedi cael benthyg £127.6m erbyn diwedd y flwyddyn ac y bydd wedi defnyddio £12.6m o gronfeydd llif arian yn lle benthyca. Mae hwn yn ddull darbodus a chost-effeithiol o weithredu yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ond parheir i’w fonitro. Ni chymerwyd benthyg unrhyw arian yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon ac ni ragwelir y bydd angen benthyciadau

allanol ychwanegol yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol. Bydd gofyn benthyg arian i gyllido rhan o raglen gyfalaf 2019/20, ond benthyca mewnol fydd hynny.

- Ar 9 Hydref, 2019, cyhoeddodd y Trysorlys a'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) gynnydd o 100 pwynt sylfaen neu 1% yn y gyfradd fenthyca. Ni chafwyd rhybudd ymlaen llaw gan olygu bod yn rhaid i bob awdurdod lleol ailasesu'n sylfaenol sut i ariannu eu hanghenion benthyca allanol ac ymarferoldeb ariannol y prosiectau cyfalaf sydd ganddynt yn eu rhaglenni cyfalaf oherwydd y cynnydd annisgwyl yn y gost o fenthyca. Er bod yr Awdurdod hwn wedi dibynnu'n flaenorol ar y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus fel ei brif ffynhonnell ariannu, mae'n rhaid iddo nawr ystyried ffynonellau benthyca amgen rhatach.
- Bod cyfleoedd i aildrefnu dyledion wedi bod yn gyfyngedig iawn yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ac nid oes yr un ddyled wedi ei haildrefnu hyd yma yn y flwyddyn ariannol hon.
- Bod adran 7 yr adroddiad yn nodi'r cynnydd o ran sefyllfa gyfalaf y Cyngor ac yn cadarnhau nad yw'r Cyngor wedi torri unrhyw un o'i ddangosyddion darbodus yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol. Mae rhai newidiadau yn y ffordd o ariannu'r rhaglen gyfalaf oherwydd tanwariant sylweddol ar dri chynllun cyfalaf yn 2019/20 (cyfeirier at baragraff 7.2.1). Mae'r Cyngor hefyd ychydig yn is na'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf a ragwelwyd yn wreiddiol (angen y Cyngor i fenthyca) o ganlyniad i fenthyca llai na'r disgwyl, a hynny'n bennaf i'w briodoli i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mewn perthynas â gweithgareddau buddsoddi'r Cyngor, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) at erthygl yn y newyddion ynghylch y swm o £5m yr oedd yr Awdurdod wedi'i fuddsoddi gyda Chyngor Bwrdeistref Cheltenham (sef un o nifer o awdurdodau a oedd wedi buddsoddi arian gyda Chyngor Cheltenham yn yr un modd); 'roedd yr erthygl wedi ei lunio mewn ffordd a oedd yn rhoi'r argraff bod y buddsoddiad yn amhriodol a bod yr arian yn cael ei fuddsoddi mewn parc busnes sy'n cael ei ddatblygu gan Gyngor Bwrdeistref Cheltenham. Ar sail yr erthygl roedd y cyhoedd wedi dod i gasgliadau camarweiniol a beirniadol ynghylch sut mae'r Cyngor yn defnyddio ac yn rheoli arian cyhoeddus fel y tystiwyd mewn e-byst gan drethdalwyr Ynys Môn at Arweinydd y Cyngor a'r Swyddog Adran 151 ac y darllenwyd rhannau ohonynt allan yn y cyfarfod gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 nad oedd y Cyngor wedi buddsoddi unrhyw arian cyhoeddus yn y datblygiad yn Cheltenham ac eglurodd fod benthyca rhwng awdurdodau yn arfer safonol a bod manteision i roi benthyg arian yn y fath fodd, sef bod awdurdodau yn ffynonellau buddsoddi diogel, bod yr enillion yn well na phe bai'r arian wedi ei fuddsoddi gyda banc ac mae'n rhatach i'r awdurdod sy'n cael benthyg yr arian hefyd. (Cyngor Bwrdeistref Cheltenham yn yr achos hwn). Roedd y buddsoddiad a wnaed gan Gyngor Ynys Môn gyda Chyngor Bwrdeistref Cheltenham yn fenthyciad tymor byr am gyfnod o 65 diwrnod ac fe gynhyrchodd elw o £5,800 pan dalwyd yn yr arian yn ôl o'i gymharu ag elw o £3,500 a fyddai wedi ei gynhyrchu pe bai'r swm wedi ei fuddsoddi gydag un o fanciau'r Cyngor ar 0.4%.

Cytunodd y Pwyllgor ei fod yn bwysig sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei rhannu fel y gall y cyhoedd fod yn glir ynghylch penderfyniadau buddsoddi'r Cyngor a pham mae'n eu gwneud, gan roi sicrwydd felly ynghylch y ffordd y mae'n rheoli arian cyhoeddus.

**Penderfynwyd derbyn a nodi Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2019/20 heb wneud sylw pellach.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

## 6 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg a oedd yn rhoi diweddariad ar gynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran darpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd ac adolygiadau a gwblhawyd.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ar y prif ystyriaethau fel a ganlyn -

- Bod pum adroddiad wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod a oedd oll yn archwiliadau ardystio grantiau – sef Grant Datblygu Disgyblion (Plant sy'n Derbyn Gofal); Dyfarniadau Tâl Athrawon a Phwysau Cost; Grant Datblygu Disgyblion (Mynediad); Grant Dysgwyr o Gefndir Ethnig, Lleiafrifol, Sipsi, Roma neu Deithwyr a Grant Costau Prydau Ysgol Am Ddim Ychwanegol oherwydd cyflwyno Credyd Cynhwysol (Darparwyd copïau i aelodau'r Pwyllgor). Cynhyrchodd y pedwar adolygiad cyntaf farn Sicrwydd Sylweddol tra bod y pumed wedi cael sgôr Sicrwydd Rhesymol. Ni nododd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol bod unrhyw risgiau yr oedd angen i reolwyr roi sylw iddynt yn unrhyw un o'r pum adolygiad.
- Daeth yr ail adolygiad dilyn-i-fyny o'r maes Dyledwyr Amrywiol (roedd yr adolygiad gwreiddiol a'r adolygiad dilyn-i-fyny cyntaf wedi dyfarnu barn Sicrwydd Cyfyngedig) i'r casgliad bod y Rheolwyr wedi gwneud llawer o waith i fynd i'r afael â'r materion / risgiau yr oedd angen rhoi sylw iddynt ar ôl yr adolygiad dilyn-i-fyny cyntaf ac felly roedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi medru cynyddu'r lefel sicrwydd i Sicrwydd Rhesymol. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r ffaith bod 8 mater / risg yn parhau i fod heb eu datrys (sy'n cael sylw ar hyn o bryd) ac effaith bosib y rhain yn y meysydd hynny, bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sylw i'r cynllun gweithredu eto ym mis Mai, 2020.
- Bod dau adroddiad dilyn-i-fyny gyda sgôr Sicrwydd Cyfyngedig yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd - Casglu Incwm Ysgolion Cynradd a Thaliadau Uniongyrchol. Mae yna hefyd adolygiad dilyn-i-fyny o Archwiliad Llywodraethu Gwybodaeth Ysgolion a gynhaliwyd gan ymgynghorydd allanol ac na ddarparwyd sgôr sicrwydd ar ei gyfer. Mae dau adolygiad dilyn-i-fyny wedi'u hamserlennu ar gyfer y chwe mis nesaf - Rheolaethau System: Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau, a Dyledwyr Amrywiol. Efallai y bydd mwy hefyd ond mae hynny'n dibynnu ar y sicrwydd a ddarperir ar gyfer adolygiadau a gynhelir trwy gydol y flwyddyn.
- Bod perfformiad rheolwyr wrth fynd i'r afael â materion / risgiau a gweithredu camau yn parhau i wella. Nid oes unrhyw faterion / risgiau Uchel neu Goch angen sylw ar hyn o bryd ac mae perfformiad o ran mynd i'r afael â materion / risgiau sydd â sgôr Ambr wedi gwella ers rhoi'r diweddariad diwethaf i'r Pwyllgor ar 3 Medi ac mae'r ganran weithredu gyffredinol ar gyfer materion / risgiau Uchel / Coch / Ambr yn 94%. Mae perfformiad wrth fynd i'r afael â risgiau Canolig / Melyn wedi gwella hefyd. Fodd bynnag, llesteiriwyd y cynnydd yr oedd modd ei wneud gyda gweithredu'r fersiwn newydd o'r system tracio camau gweithredu oherwydd mater a oedd yn ymwneud â chydnawsedd TG ac nad yw ond wedi'i ddatrys yn ddiweddar.
- Bod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar chwe archwiliad o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2019/20 fel y rhestrir nhw ym Mharagraff 37 yr adroddiad.
- Bod cynnydd o 120 diwrnod yn yr adnodd sydd ar gael i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol (ar ôl cymryd hyfforddiant a gwyliau blynyddol i ystyriaeth mae hyn yn gadael 70 diwrnod y gellir eu defnyddio ar brosiectau) a chafwyd cymorth cyfrifydd o'r Gwasanaeth Cyfrifeg am gyfnod dros dro er mwyn rhoi cyfle datblygu i'r gweithiwr dan sylw mewn gwasanaeth archwilio ac i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a cheisiodd eglurhad pellach mewn perthynas â'r materion a ganlyn -

- Pam y rhoddwyd sgôr Sicrwydd Rhesymol i'r archwiliad Ardystiad Grant mewn perthynas â Phrydau Ysgol Am Ddim Ychwanegol oherwydd cyflwyno Credyd Cynhwysol,

er na nodwyd unrhyw risgiau yr oedd angen i reolwyr gymryd camau yn eu cylch ac o gofio bod yr holl archwiliadau ardystio grant eraill y cyfeiriwyd atynt wedi cael sgôr Sicrwydd Sylweddol. Hefyd, o gofio bod y Rhaglen Weithredu yn seiliedig ar risg, pam y cafodd yr archwiliadau grant eu blaenoriaethu pan oedd y sgôr sicrwydd ar gyfer pob un o'r pump yn dangos eu bod yn risg isel?

Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod raid, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, ardystio bod y grantiau penodol y cyfeiriwyd atynt wedi cael eu harchwilio. Nid yw'r un gofynion yn berthnasol i bob grant. Hefyd, fel prosiectau unwaith ac am byth, ystyrir bod y Grant Dyfarniad Tâl Athrawon a Phwysau Costau, ynghyd â'r Grant Costau Prydau Ysgol Am Ddim Ychwanegol yn sgil cyflwyno Credyd Cynhwysol yn risgiau ychydig uwch.

Gan gyfeirio at y sgôr sicrwydd a roddwyd i'r Grant Costau Prydau Ysgol Am Ddim Ychwanegol yn sgil cyflwyno Credyd Cynhwysol, amlinellwyd cefndir y mater gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ac eglurodd mai pwrpas yr arian ychwanegol hwn oedd ad-dalu'r Cyngor am gostau a gafwyd wrth ariannu prydau ysgol ychwanegol am ddim ym mlwyddyn ariannol 2018/19 oherwydd cyflwyno Credyd Cynhwysol. Fodd bynnag, oherwydd cyflwyno Credyd Cynhwysol yn hwyr yn Ynys Môn ym mis Rhagfyr 2018, roedd costau uniongyrchol cysylltiedig y Cyngor yn gyfyngedig. Cynigiwyd cynllun gwariant i gefnogi disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ac fe'i derbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (rhoddwyd manylion amdano yn yr adroddiad terfynol a ddarparwyd). Roedd y symiau yn y cynllun yn amcangyfrifon o sut y byddai'r Cyngor yn gwario'r arian ond ni wariodd y symiau a amcangyfrifwyd yn llawn. Cytunodd Llywodraeth Cymru y gellid defnyddio'r cyllid a oedd heb ei wario i ddileu dyled 2018/19 mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim ond ni fyddai'r grant ond ar gyfer  costau a gafwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19. Nid oedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gallu gwirio'r swm yr honnir iddo gael ei ddileu mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, gan nad yw wedi digwydd eto h.y. nid yw'r Gwasanaeth Archwilio  Mewnol wedi gweld tystiolaeth o ddileu'r ddyled ac ni all wirio a yw'r ddyled yn ymwneud yn benodol â phrydau ysgol am ddim a dyna'r rheswm felly pam y rhoddwyd barn Sicrwydd Rhesymol yn hytrach na Sicrwydd Sylweddol.

- Y rhesymau pam y trefnwyd y trydydd archwiliad dilyn-i-fyny o'r maes Dyledwyr Amrywiol ar gyfer mis Mai, 2020 pan y gellid disgwyl efallai y byddai'r materion / risgiau sydd angen sylw fod wedi'u datrys o fewn amserlen fyrrach?

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod llawer o'r materion mewn perthynas â Dyledwyr Amrywiol yn deillio o gapasiti'r tîm i ddelio â'r llwyth hanesyddol o waith. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf mae'r tîm wedi cael ei ailstrwythuro gyda gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar foderneiddio systemau gweithredu'r gwasanaeth gyda'r nod o symud fwyfwy tuag at brosesau taliadau digidol a thrwy hynny leihau nifer yr anfonebau a godir. Yn ogystal, bwriedir penodi i swydd newydd Gweinyddwr Systemau a fydd hefyd yn cynnwys datblygu systemau casglu incwm arian parod y gwasanaeth. Felly, mae camau'n cael eu cymryd i resymoli maint y gwaith a disgwylir y bydd y camau hynny'n mynd i'r afael â llawer o'r materion sydd angen sylw o'r archwiliad. Yn ogystal, mae'r amser a gymerir i gymeradwyo dyledwyr newydd a chodi anfonebau newydd wedi gwella'n sylweddol. Mae'n cymryd amser i ddatblygu systemau TG newydd a sicrhau eu bod wedi'u hintegreiddio'n iawn â'r systemau cysylltiedig; fodd bynnag, erbyn mis Mai 2020 a chyda chefnogaeth yr adnodd ychwanegol, disgwylir y bydd gwelliannau pellach wedi'u gwneud er gwaethaf y ffaith bod y gwaith datblygu yn ychwanegol at waith dydd i ddydd y staff.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Pwyllgor ynghylch manteision defnyddio arbenigwyr allanol i ymgymryd â'r gwaith datblygu systemau, dywedodd y Swyddog fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn golygu bod yn rhaid iddo gynnal cydbwysedd rhwng buddsoddi mewn swyddogaethau swyddfa gefn a gwasanaethau rheng flaen. Er bod costau swyddfa gefn

wedi lleihau dros amser fel rhan o fesurau effeithlonrwydd i gydbwyso cyllideb y Cyngor, nid oes modd gwneud gostyngiadau pellach. Fodd bynnag, pe bai rhagolygon ariannol y Cyngor yn gwella efallai y bydd modd ailystyried ailfuddsoddi mewn swyddogaethau swyddfa gefn a fyddai'n cynhyrchu arbedion a gwelliannau mewn effeithlonrwydd.

• Amlder cyfeiriadau mewn adroddiadau at faterion cydnawsedd TG fel rhywbeth sy'n rhwystro cynnydd ac a yw'r materion hyn yn codi oherwydd ansawdd y fanyleb dechnegol a roddir i ddarparwyr o ran yr hyn y mae disgwyl i'r cynnyrch / meddalwedd ei wneud a sut y rheolir y broses wedyn i sicrhau hynny bod y cynnyrch yn cael ei gyflenwi yn unol â hynny?

Esboniodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, o ran systemau gweithredu llywodraeth leol, fod nifer y darparwyr yn gyfyngedig a bod yr ychydig ddarparwyr hyn yn gwasanaethu nifer fawr o awdurdodau lleol. Fel awdurdod llai mae Ynys Môn dan anfantais o ran ei allu i ddylanwadu ar ddarparwyr o'i gymharu ag awdurdodau mawr a chanddynt gyllidebau mwy. Yn ogystal, mae'n rhaid i gymwysiadau gwrdd â gofynion dwyieithrwydd y Cyngor a gall hynny greu anawsterau weithiau sy'n arwain at oedi. Gall materion annisgwyl godi hefyd ar ôl i'r fanyleb gael ei hysgrifennu. Mae'r gwahaniaethau yn y ffordd y mae cynghorau eraill yng Nghymru yn gweithredu'r Safonau'r Iaith Gymraeg a'r gwahaniaethau yn y systemau gweithredu hefyd yn ei gwneud hi'n anodd cydweithredu ar faterion TG.

• Mewn ymateb i ymholiad am gynhyrchiant, eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod sgyrsiau gyda chydweithwyr mewn awdurdodau lleol eraill a chyda Llywodraeth Cymru wedi dangos nad ydynt yn cynnwys absenoldeb blynyddol nac absenoldeb mamolaeth yn eu hystadegau. Felly ar gyfer y flwyddyn nesaf bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn mesur cynhyrchiant mewn ffordd wahanol. Cadarnhaodd y Swyddog hefyd nad yw'r Cynllun Gweithredu yn nodi dyddiad cyflawni ar gyfer archwiliadau unigol oherwydd bod y Cynllun yn ddogfen fyw ac yn newid wrth i'r gofrestr risg newid. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ceisio sicrhau bod y Cynllun yn parhau i fod yn hyblyg fel y gellir cynnwys unrhyw feysydd risg sy'n dod i'r amlwg yn y Cynllun yn ystod y flwyddyn.

**Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r eglurhad a'r sicrwydd pellach a ddarparwyd gan y Swyddogion yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor nodi'r cynnydd diweddaraf a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran darpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd a pherfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliannau.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

**7 ADOLYGU CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori cylch gorchwyl y Pwyllgor i ddibenion adolygu.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod Blaenraglen y Pwyllgor yn darparu ar gyfer cynnal adolygiadau rheolaidd o'i gylch gorchwyl ac ystyrir bod hynny'n arfer dda. Cymeradwyodd yr adolygiad diwethaf ym mis Medi 2018 gylch gorchwyl a ddiwygiwyd ac a ddiweddarwyd yn llawn er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â chanllawiau a gyhoeddwyd gan CIPFA. Oherwydd bod y cylch gorchwyl wedi ei ddiwygio'n llawn yn 2018, cynhaliwyd ymgynghoriad sylweddol ac eang i ofyn barn rhanddeiliaid. Gan na chyhoeddwyd unrhyw ganllawiau penodol newydd ar gyfer y sector hwn ac oherwydd na fu unrhyw newidiadau sylweddol eraill sy'n effeithio ar y cylch gorchwyl, cynhaliwyd ymgynghoriad cyfyngedig gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 ac ymgynghorydd o CIPFA. Ni nodwyd unrhyw newidiadau sylweddol a'r unig newid oedd y newid yn nheitl swydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog 151. Os mai dyna'r achos o

hyd, gellir diweddaru'r cylch gorchwyl heb fod angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn.

Gan gyfeirio at adrannau 30 i 33 o'r cylch gorchwyl a oedd yn ymwneud â thwyll a llygredd, amlygodd y Swyddog fod gwaith y Pwyllgor yn y maes hwn wedi bod yn gyfyngedig hyd yn hyn - mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrthi ar hyn o bryd yn gwneud darn o waith ar dwyll a llygredd gyda'r bwriad o ddod ag adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor yn Ebrill, 2020 a fydd yn cynnwys asesiad o'r risg o dwyll yn ogystal â throsolwg o dwyll am y flwyddyn.

Ystyriodd y Pwyllgor y cylch gorchwyl a gofynnodd a oes unrhyw gyrff heblaw CIPFA yn ymwneud â chyfrifoldebau Pwyllgorau Archwilio yng Nghymru. Cyfeiriwyd hefyd at gyflwyniad gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod cyntaf o'r 22 o Gadeiryddion Pwyllgorau Archwilio lle'r oedd y canllawiau a ddarparwyd yn wahanol i gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn, yn benodol o ran aelodaeth pwyllgorau archwilio.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg mai CIPFA yw'r prif gorff o ran cynhyrchu arweiniad ar swyddogaethau pwyllgorau archwilio. Mewn perthynas â chyflwyniad Swyddfa Archwilio Cymru eglurodd fod rhan o'r cyflwyniad yn ymwneud â chynigion a gynhwysir yn y Mesur Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sy'n cyflwyno diwygiadau etholiadol a threfniadau llywodraethu newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru a fydd, pan gaiff ei ddeddfu, yn debygol o arwain at newidiadau gan gynnwys newid yn aelodaeth y pwyllgor hwn. Ar hyn o bryd, mae aelodaeth a chylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru). Mewn ymateb i gais am ddiweddariad ar y trefniadau i'r Pwyllgor gynnal hunanasesiad, dywedodd y Swyddog, gan fod y cyfarfod o'r 22 o gadeiryddion archwilio yn gwneud darn o waith ar effeithiolrwydd pwyllgorau archwilio, byddai'n synhwyrol i oedi cyn cynnal yr hunanasesiad, a hynny er mwyn osgoi dyblygu. Mae sesiwn lle cyfarfu'r 22 o gadeiryddion a'r penaethiaid archwilio gyda'i gilydd wedi nodi'r meysydd hynny lle ystyrir bod pwyllgorau archwilio angen y gefnogaeth fwyaf, sef yn benodol mewn perthynas â hyfforddiant ar y côd llywodraethu. Y gobaith felly yw y bydd rhywfaint o hyfforddiant ar faterion llywodraethu yn cael ei ddarparu yn gynnar y flwyddyn nesaf.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r cylch gorchwyl cyfredol gyda dim ond mân newidiadau i ddiweddaru teitl swydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

**8 BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd Blaenraglen y Pwyllgor i'w hadolygu ac **fe'i cymeradwywyd heb ei newid.**

**9 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.**

**10 POLISI GWIRIO AR SAIL RISG**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a oedd yn ceisio sylwadau'r Pwyllgor ar bolisi arfaethedig i wirio ar sail risg. Roedd yr

adroddiad yn nodi sut y penderfynwyd ar y grwpiau risg ar gyfer y Polisi arfaethedig; yr arbedion / manteision a ddisgwylir a sut byddai'r polisi'n cael ei weithredu a'i fonitro.

Adroddodd y Rheolwr Budd-daliadau fod y Gwasanaeth Budd-daliadau ar hyn o bryd yn gwneud yr un lefel o waith gwirio ar gyfer pob achos. Dyma'r lefel wirio sylfaenol fel y nodir yn fframwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau ond nid yw'r fframwaith hwnnw'n cael ei ddefnyddio mwyach. Gan fod y gwaith yn llafurddwys, mae'n ei gwneud hi'n anoddach rhoi ffocws ychwanegol ar achosion penodol ac mae'n cyfyngu ar y gallu i adolygu'r achosion hynny lle mae'r risg o dwyll / camgymeriad ar ei uchaf. Er bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi caniatáu disgresiwn i awdurdodau weithredu eu prosesau eu hunain ar gyfer gwirio risg ers 2011, nid yw'r Awdurdod wedi ymrwymo i wneud hynny tan nawr. Mae adolygiad o brosesau a'r gostyngiad mewn achosion Budd-dal Tai wedi arwain at ailystyried hyn i weld a yw'n cael ei wneud yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Er mwyn cynorthwyo i sefydlu ym mha gategori o hawlwyr y mae'r risg fwyaf o newid, gwnaed dadansoddiad ym mis Mehefin 2019 o'r holl achosion lle gordalwyd hawlwyr oherwydd camgymeriad a wnaed gan yr hawlwyr eu hunain. Rhoddwyd sylw i'r rhesymau dros y gordaliadau yn ogystal â phroffil o sefyllfa'r hawlydd. Dadansoddwyd yr hawliadau a dderbyniwyd ym mis Mawrth ac Ebrill 2019 hefyd i ddarganfod i ba grŵp risg y byddai'r rhain yn disgyn. Mae'r adroddiad yn nodi canfyddiadau'r dadansoddiadau hynny gan gynnwys yr elfennau o'r hawliadau a gafodd sylw er mwyn pennu'r grŵp risg. Aseswyd yr effaith ar y gwasanaeth ac fe'i crynhoir yn yr adroddiad. Yn ogystal, cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i weld a fydd y newid arfaethedig yn y dull o weithredu yn cael mwy o effaith ar grwpiau penodol o hawlwyr.

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad ac wrth ystyried amcanion y polisi newydd o geisio canolbwyntio adnoddau ar yr achosion hynny lle mae anghysondebau / camgymeriadau yn debygol o ddigwydd h.y. y rheini yn y categori risg uchel, mynegodd rai amheuon ynghylch y fethodoleg a fabwysiadwyd mewn perthynas â'r elfennau o'r hawliadau a ystyriwyd ac amlygodd yn benodol anawsterau posib gyda'r dadansoddiad grŵp oedran a'r ffordd y penderfynwyd ar yr ystod oedran gan ei fod yn credu y gallai arwain at broffil risg anghywir a fyddai'n gogwyddo'r casgliad y daethpwyd iddo tuag at grŵp oedran penodol. Awgrymodd y Pwyllgor efallai yr hoffai'r Swyddogion feddwl am y rhan hon o'r polisi cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo; argymhellodd y Pwyllgor ymhellach y dylid cymryd sampl ar hap o achosion o bob grŵp oedran, pob grŵp enillion a phob grŵp cyfansoddiad teulu yng nghamau cynnar gweithredu'r polisi er mwyn gwirio a rhoi prawf ar y rhagdybiaethau a wnaed.

**Penderfynwyd nodi'r Polisi Gwirio ar Sail Risg ar gyfer Budd-dal Tai / Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan argymell –**

- **Ailystyried yr ystod oed yn y grwpiau oedran;**
- **Y dylid cymryd sampl o achosion ar hap ar y llinellau a awgrymwyd unwaith y gweithredir y polisi.**

**Mr Jonathan Mendoza**
**(Cadeirydd)**